TGAU Cymraeg

Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r fanyleb TGAU mewn Cymraeg: Iaith Gyntaf yn ceisio sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfle i:

- ddangos diddordeb, pleser a brwdfrydedd wrth astudio TGAU mewn Cymraeg: Iaith Gyntaf;
- cyfathrebu'n hyderus, yn gywir ac yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau;
- arddangos y gallu i gyfrannu'n sylweddol i drafodaethau, gan roi ystyriaeth briodol i syniadau, amgylchiadau a rôl pobl eraill;
- ymateb i ystod lawn o ddarllen – testunau ysgogol sydd yn hybu diddordeb a brwdfrydedd; ymateb ar lafar neu'n ysgrifenedig i farddoniaeth, rhyddiaith a drama; rhoi sylw i fanylion, i adfer, trin a chyfuno gwybodaeth, i ganfod ystyr y tu hwnt i'r llythrennol ac i ganfod yr hyn sydd ymhlyg mewn testun;
- ysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau at amrywiaeth o bwrpasau, gan roi sylw i bwrpas, cynulleidfa a chywirdeb.

Sut fyddai'n dysgu?

- Bydd tair gwers yr wythnos.
- Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau llafar darllen ac ysgrifennu.
- Byddwch yn gwneud llawer o'r gwaith law yn llaw â'r gwaith llên.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

- Gwaith Cwrs – **30%** - Tair Tasg:
  Creadigol / Cyflwyno Gwybodaeth
  Mynegi Barn – Tasg Dan Reolaeth
  Ymateb i ddarllen

- Arholiad Llafar – **30%** - Dwy dasg:
  Trafod a mynegi barn
  Cyflwyno gwybodaeth

- **Asesiad Terfynol** (Arholiad ysgrifenedig 2¼ awr)
  Tri chwestiwn: Darllen ac Ysgrifennu a defnyddio iaith - 40%

Cofiwch!

- Rhaid gwneud gwaith cwrs mynegi barn o dan amodau arholiad.
- Mae'r gwaith cwrs yn cychwyn ar ddechrau blwyddyn 10 ac yn parhau am weddill y cwrs.
- Mae'r arholiad llafar yn ffordd hawdd o ennill marciau o baratoi yn drwyadl.

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Eirian Môn Roberts

Ysgol Eifionydd Porthmadog